

# Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn

## Crynodeb o'r ymgysylltiad â phobl ifanc

Ionawr 2021

Fel rhan o'r ymchwiliad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am farn pobl ifanc, o ystyried natur y Ddeddf a pha mor berthnasol ydyw i genedlaethau'r dyfodol.

## 1. Ymgysylltu

Ym mis Hydref 2020, ysgrifennodd y Cadeirydd at dros 70 o sefydliadau addysgol a grwpiau ieuentid i ofyn am eu cymorth i annog pobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymchwiliad. O ystyried pwysigrwydd y Ddeddf i bobl ifanc, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19 ac adferiad Cymru, gwnaeth y Pwyllgor bob ymdrech i glywed gan bobl ifanc eu hunain. Roedd y Pwyllgor yn deall efallai na fyddai gan ysgolion na grwpiau ieuentid y capasiti i ymgysylltu oherwydd maint yr heriau y mae'r sector addysg wedi'u hwynebu drwy'r pandemig.

Roedd y pwyllgor am glywed yr hyn y mae pobl ifanc yn ei wybod o ran:

- ymwybyddiaeth o'r Ddeddf;
- profiadau pobl ifanc o sut y gweithredwyd y Ddeddf;
- safbwyntiau ynghylch beth yw'r rhwystrau i weithredu'r Ddeddf;
- sut y gellir ei gweithredu'n well yn y dyfodol.

Paratowyd adnoddau i alluogi ysgolion a grwpiau ieuentid i ddarparu gweithgaredd gyda'u grwpiau, casglu safbwyntiau pobl ifanc a'u cyflwyno. Roedd y rhain yn cynnwys:

[Pecyn adnoddau gweithgaredd:](#)

[Cyflwyniad Powerpoint.](#)

## 1.1. Hyrwyddo

Hyrwyddwyd yr adnodd ymgysylltu yn helaeth drwy amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys gwefan y Senedd a'i llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd cynnwys atyniadol, fel [blog](#) a [fideo hyrwyddo](#), yn darparu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Roedd hysbysebion â ffocws ar y cyfryngau cymdeithasol yn ei gwneud yn bosibl i dargedu grwpiau penodol.

## 1.2. Ymatebwyr

Cymerodd **14 o bobl ifanc**, rhwng 16 a 18 oed, ran yn yr ymgysylltiad. Daeth y cyfranogwyr o ddau ddarparwr addysg: myfyrwyr gwleidyddiaeth o Gampws Crosskeys, Coleg Gwent ac Abertawe a 5 o Inspire Training.

## 2. Canfyddiadau

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod a chofnodi beth oedd pob un o'r 7 nod llesiant yn ei olygu iddynt a pha rwystrau y credent y bydd angen eu goresgyn er mwyn cyflawni'r nodau hynny.

Roedd 2 o'r 14 cyfranogwr wedi clywed am y Ddeddf a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a 12 heb glywed amdanynt.

### 2.1. Cymru lewyrchus

Teimlai'r cyfranogwyr fod Cymru lewyrchus yn datblygu symudedd cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl da ac amgylchedd ac economi gynaliadwy.

Roedd y cyfranogwyr yn darlunio symudedd cymdeithasol fel y cyfle i ddianc rhag tlodi drwy ddysgu sgiliau newydd; y gallu i ennill cyflog teg a mynediad at dai fforddiadwy, mewn trefi a dinasoedd lle nad oes *'ardaloedd anwaraidd'* mwyach.

"Byddai gan Gymru lewyrchus sector preifat cryfach. Mae angen i bobl fod mewn cyflogaeth sy'n talu'n dda".

Dywedodd y cyfranogwyr fod iechyd meddwl da yn arwydd o Gymru lewyrchus. Awgrymwyd bod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, deiet cytbwys ac iach a chymwysterau ysgol nad ydynt yn seiliedig ar arholiadau yn ffyrdd o gefnogi Cymru lewyrchus.

"Mae poblogaeth iach yn bwysig i lewyrch y wlad",

Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod amgylchedd ac economi gynaliadwy yn bwysig iawn i Gymru lewyrchus. Ystyriwyd bod mathau cynaliadwy o ynni yn hanfodol i'r amgylchedd a'r economi.

“Diwydiannau sydd â llaw gadarnach i hyrwyddo amgylchedd gwyrddach, mae cyfle i wella sgiliau a chynnig swyddi”.

Awgrymodd y cyfranogwyr mai'r rhwystrau i sicrhau Cymru lewyrchus fyddai diffyg gweithredu amgylcheddol a chryfder gwleidyddol, a draen dawn.

O ran gweithredu amgylcheddol, cytunodd y cyfranogwyr y gallai diffyg addysg a chymhelliant fod yn rhwystrau i unioni'r problemau amgylcheddol. Barnwyd hefyd nad Bagloriaeth Cymru oedd y llwybr cywir i “fynd i'r afael â materion byd-eang”.

Teimlai'r cyfranogwyr hefyd y dylai busnesau gymryd mwy o gyfrifoldeb am yr amgylchedd:

“Mae gormod o bwysau ar y defnyddiwr i wneud newidiadau er lles yr amgylchedd pan fo fel arfer yn costio mwy ac yn cymryd mwy o amser, tra bydd busnesau / ffatrioedd mawr ac ati yn dal i gynhyrchu plastig neu gynhyrchion niweidiol eraill ar raddfa fawr”.

Roedd y cyfranogwyr hefyd yn gweld cryfder gwleidyddol fel rhwystr posibl i sicrhau Cymru lewyrchus. Awgrymwyd y byddai cael Llywodraeth Cymru fwy amrywiol o ran ethnigrwydd yn ateb i'r rhwystr hwn. Roedd rhai yn gweld Cymru yn “fach ar lwyfan y byd” ac yn teimlo nad oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o bwerau i sicrhau Cymru lewyrchus yn llwyr:

“Mae Llywodraeth y DU yn awgrymu mai camgymeriad oedd datganoli; efallai y bydd yn dileu pwerau o fewn y pum mlynedd nesaf. Mae annibyniaeth yn cynyddu yng Nghymru ond mae'n dal i fod yn isel iawn. Mae Llywodraeth y DU yn tynnu pwerau oddi ar Gymru”.

Yn olaf, awgrymodd y cyfranogwyr y byddai draen dawn, lle y mae pobl o Gymru yn chwilio am gyfleoedd proffesiynol mewn gwledydd eraill, yn rhwystr i sicrhau Cymru lewyrchus:

“Os ydych eisiau arian, ewch i Loegr, mae angen ymennydd da a phobl alluog arnom”.

## 2.2. Cymru gydnerth

Teimlai'r cyfranogwyr fod Cymru gydnerth yn paratoi ar gyfer y dyfodol gydag economi gref.

---

Cytunodd y cyfranogwyr fod bod yn barod ar gyfer y dyfodol yn arwydd o Gymru gydnerth, gan gynnwys parodrwydd ar gyfer trychinebau a newid hinsawdd. Teimlai'r cyfranogwyr fod economi gref yn bwysig ar gyfer Cymru gydnerth a thynnwyd sylw at bosibiliadau economi werdd i gynhyrchu ynni cwbl adnewyddadwy.

“Pan gaewyd y pyllau glo, cynyddodd cyfradd tlodi. Gwneaethom golli ein diwydiannau traddodiadol. Mae angen economi gref arnom”.

Awgrymodd y cyfranogwyr mai'r rhwystrau i sicrhau Cymru gydnerth fyddai cryfder gwleidyddol ac agweddau cymdeithasol.

---

Dadleuodd y cyfranogwyr fod gan lywodraeth y DU ormod o bŵer a'i bod yn cymryd gormod o ran yn y penderfyniadau a wneir yng Nghymru. At hynny, tynnwyd sylw at y ffaith bod penodi gwleidyddion a llywodraethau am dymor byr yn rhwystr rhag bwrw ymlaen â materion tymor hir. Ystyriwyd bod agweddau digalon mewn cymdeithas yn rhwystr i her wleidyddol, yn ogystal â newidi:

“Bai'r blaid sy'n llywodraethu ydyw os nad yw pethau'n iawn yn y pen draw - felly newidiwch y blaid i gael syniadau newydd. Mae'n blaid ddominyddol, bob amser yn defnyddio'r un strategaethau, gan ddod yn hunanfodlon - mae angen eu herio”.

## 2.3. Cymru iachach

Teimlai'r cyfranogwyr fod Cymru iachach yn canolbwyntio ar atal cymaint â gwella, yn blaenoriaethu gwasanaethau iechyd meddwl ac yn hyfforddi ymarferwyr medrus.

---

Cytunodd y cyfranogwyr y byddai gostwng pris bwydydd iach yn helpu i ganolbwyntio ar atal cymaint â gwella er mwyn creu Cymru iachach.

“Mynediad at brydau bwyd iach a maethlon – pwysleisiwyd cymorth i deuluoedd ar incwm is. Rhaid diwallu anghenion sylfaenol! (Hierarchaeth anghenion Maslow)”.

---

Nodwyd mynediad at wasanaethau iechyd meddwl fel elfen o Gymru iachach, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion ac addysg am anhwylderau bwyta.

“Mewn Cymru iachach, mae cymorth ar gyfer iechyd meddwl yn hawdd ei gael – dylai meddygfa benodol ar gyfer iechyd meddwl, ac iechyd meddwl yn unig, lle rydych yn cofrestru fel y byddech ar gyfer meddyg teulu fod ar gael i bawb”.

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod hyfforddi ymarferwyr a chadw gweithwyr proffesiynol yng Nghymru yn elfen o Gymru iachach.

Awgrymodd y cyfranogwyr mai'r rhwystrau i sicrhau Cymru iachach fyddai dewisiadau ffordd o fyw, addysg a chau ysbytai.

Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod angen i bobl wneud dewisiadau ffordd o fyw gwell a bod amharodrwydd i wneud hynny yn rhwystr i Gymru iachach. Teimlai'r cyfranogwyr fod cost bwyta'n iach ac ymuno â champfa yn gwaethygu'r broblem.

“Mae bwyd afiach yn rhatach a gall tâl ymaelodi â champfa fod yn ddrud. Gall hefyd fod yn ddrud teithio i gampfeydd”.

Tynnodd y trafodaethau sylw at y ffaith bod cau ysbytai ac adrannau damweiniau ac achosion brys yn rhwystr, ynghyd â diffyg ffocws ar bynciau nad ydynt yn rhai craidd mewn ysgolion.

“Mae gormod o bwyslais ar bynciau craidd mewn ysgolion, mae angen rhagor o amser ar gyfer y celfyddydau, chwaraeon, coginio, sgiliau bywyd ac ati”.

## 2.4. Cymru sy'n fwy cyfartal

Teimlai'r cyfranogwyr fod Cymru sy'n fwy cyfartal yn mynd i'r afael â thlodi a gwahaniaethu, a bod ganddi system addysg hygyrch.

Cytunodd y cyfranogwyr y byddai Cymru sy'n fwy cyfartal wedi mynd i'r afael â thlodi, dosbarthu adnoddau'n deg a seilwaith trafndiaeth.

“Mae llawer o Gymru'n dlawd, mae angen rhagor o gyfleoedd a'u cynnig i'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae angen mwy o gydbwysedd arnom – y cyfoethog yn erbyn y tlawd”.

“Ni ddylai hil, dosbarth na thlodi fod yn bwysig o ran symud ymlaen”.

Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at y ffaith nad oedd gwahaniaethu na hiliaeth â rhan mewn Cymru sy'n fwy cyfartal, a bod amrywiaeth yn bwysig:

“Cynrychiolaeth fwy cyfartal yn y senedd. Mae angen rhagor o leiafrifoedd ethnig arnom!”

Yn olaf, roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gryf y byddai Cymru sy'n fwy cyfartal yn darparu system addysg hygyrch a fforddiadwy i bawb. Ystyriwyd bod ffioedd dysgu a'r cyfleoedd a gynigir gan system addysg y wladwriaeth o'i chymharu ag addysg breifat, yn faterion sy'n rhwystro Cymru rhag bod yn fwy cyfartal.

“Ffioedd dysgu – dylid cael gwared arnynt a gwneud addysg yn fwy fforddiadwy. Ailgyflwynwch grantiau. Yn debyg i gyflog rhiant, e.e. treth. Dylai fod yn seiliedig ar incwm”.

Awgrymodd y cyfranogwyr mai'r rhwystrau i sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal fyddai agwedd cymdeithas a'r rhaniad cymdeithasol.

---

Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod y cyfryngau â rhan wrth greu rhwystrau i gael Cymru sy'n fwy cyfartal drwy wahaniaethu a pharhau ag ystrydebau dosbarthiadau. Teimlai'r cyfranogwyr y byddai canfyddiad y cyhoedd, gan y rhai “na chawsant eu haddysgu ar faterion modern cymdeithas sy'n newid o hyd”, yn rhwystr sylweddol.

Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod rhaniad cymdeithasol sy'n ehangu'n rhwystr sylweddol i Gymru sy'n fwy cyfartal. Dangoswyd hyn gydag enghreifftiau o'r sector addysg:

“Mae safonau a chyfleusterau mewn ysgolion a cholegau'n amrywio'n fawr, gan arwain at addysg wael ac annigonol gyda llai o gyfleoedd mewn ysgolion gwladol”.

“Mae rhagfarn cod post ar ysgolion gwladol”.

## 2.5. Cymru o gymunedau cydlynus

Teimlai'r cyfranogwyr fod Cymru o gymunedau cydlynus â thai a chyfleusterau da, gyda democratiaeth leol gref.

---

Teimlai'r cyfranogwyr y byddai tai diogel, digonol mewn cymunedau â rheolau llym i sicrhau bod landlordiaid yn darparu tai addas i'r diben. Cytunwyd y dylai tai fod yn fforddiadwy ac y gallai pobl weithio gartref pan fo hynny'n bosibl.

---

“Ni ddylai neb fod yn ddigartref”.

Cytunwyd y byddai gan gymunedau ganolfannau cymunedol ffyniannus a chysylltiadau trafndiaeth i sicrhau cymuned gydlynus ac y byddai cymorth ar gael i ddysgu Cymraeg llafar.

“Mae pawb yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg. Os byddant yn ei orfodi, ni fydd pobl yn ei fwynhau. Efallai mai dim ond Cymraeg llafar y dylid ei ddysgu'n effeithiol”.

Yn olaf, roedd y cyfranogwyr o'r farn bod democratiaeth leol yn elfen bwysig o Gymru o gymunedau cydlynus. Roedd y syniad bod pobl leol yn cael dweud eu dweud am yr hyn sy'n cael ei adeiladu, digwyddiadau, gwasanaethau a ddarperir a phenderfyniadau cyllidebol lleol yn thema gref.

“Dylai cymunedau ffynnu ar eu pennau eu hunain, gan edrych ar ôl eu hardal leol. Mae angen i fwy fod yn digwydd mewn cymunedau i greu perthnasoedd clôs”.

Awgrymodd y cyfranogwyr mai'r rhwystrau i sicrhau Cymru fwy cydlynus fyddai canol trefi nad ydynt yn datblygu a chyfleoedd cyflogaeth gwael.

Cytunodd y cyfranogwyr y byddai canol trefi nad ydynt yn datblygu yn rhwystr i gymunedau mwy cydlynus. Ystyriwyd mai diffyg cyllid a dewis o siopau, ynghyd â lleoedd gwael ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb yw'r prif rwystrau a wynebir.

“Ffioedd parcio yng nghanol trefi, mae angen i ni ailfeddwl am hyn yn llwyr oherwydd siopa ar y we”.

Hefyd, ystyriwyd bod cyfleoedd cyflogaeth gwael yn rhwystr i gymunedau cydlynus, gyda diffyg cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a'r angen i deithio ymhellach ar gyfer swyddi sy'n talu'n dda ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd.

“Bydd yn rhaid i bobl ifanc deithio i'r ddinas am swyddi â chyflog uchel, sy'n golygu symud o'u cymunedau lleol oherwydd trafndiaeth wael a diffyg cyfleoedd gwaith”.

## 2.6. Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Teimlai'r cyfranogwyr fod Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yn cyfuno diwylliant ac addysg, ac yn gwbl ddwyieithog.

---

Teimlai'r cyfranogwyr y byddai Cymru lewyrchus yn cyflwyno cwricwlwm a fyddai'n addysgu pobl ifanc Cymru am eu hanes a'u diwylliant.

O ran addysgu'r Gymraeg yn orfodol, cytunodd llawer y dylai barhau i fod yn orfodol ond y dylai gael ei haddysgu er mwynhad ac "nid ar gyfer y graddau".

"Ni ddylai cyrsiau Cymraeg gorfodol fod yn achosi cymaint o bwysau - maent yn ei haddysgu mewn ffordd sy'n creu straen. Fel barddoniaeth. Mae angen ei gwneud yn fwy hwyliog a sgysiol. A chynnig achrediadau ar wahân ar gyfer lefelau gwahanol".

Cytunodd y cyfranogwyr fod cymdeithas ddwyieithog yn gadarnhaol i gymunedau ac yn elfen bwysig o Gymru lewyrchus.

"Dylai fod gennym ddwyieithrwydd llawn neu fwyafrif".

"Mae diwylliant yn hanfodol - mae iaith yn rhan o'n diwylliant felly dylid ei dathlu ond nid ei gorfodi arnom".

Awgrymodd y cyfranogwyr mai'r rhwystrau i sicrhau Cymru â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu fyddai agwedd, nifer fach yn dilyn cyrsiau Cymraeg i oedolion a diffyg creadigrwydd mewn ysgolion.

---

Cytunodd y cyfranogwyr mai rhwystr sylweddol fyddai agwedd ddiystyriol tuag at y Gymraeg a'n lle yn y byd.

"Mae angen i ni fabwysiadu agwedd newydd. Efallai oherwydd bod yr iaith wedi cael ei gwthio arnom".

"Mae pobl yn teimlo nad ydym yn cael effaith ar lwyfan y byd neu nad ydym yn ymwybodol ohoni".

Cytunwyd y byddai nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg i oedolion, o bosibl oherwydd diffyg amser neu gyfle, yn rhwystr

"Nid oes llawer o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg pan fyddwch yn gadel yr ysgol".

---



Yn olaf, cytunodd y cyfranogwyr fod peidio â gweld sgiliau a phynciau creadigol yr un mor bwysig â phynciau eraill yn rhwystr i sicrhau Cymru sy'n fywiog yn ddiwylliannol:

“Mae ysgolion yn cael eu hysgogi'n ormodol gan dargedau. Nid oes amser ar gyfer Eisteddfodau na gweithgareddau allgyrsiol”.

## 2.7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Teimlai'r cyfranogwyr fod Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn dod o hyd i nwyddau mewn ffordd gyfrifol ac yn wlad flaengar ar lwyfan y byd.

Teimlai'r cyfranogwyr fod dod o hyd i nwyddau'n gyfrifol, gan sicrhau nad ydym yn cael effaith negyddol ar bobl a'r amgylchedd, yn hanfodol ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

“Dylid cael gwaharddiad ar gynhyrchion a wneir mewn slafdai a dylai dillad fod yn fforddiadwy ond o ffynonellau cyfrifol”.

Barnwyd bod bod yn wlad flaengar ar lwyfan y byd yn bosibl ac yn bwysig mewn perthynas â Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

“Mewn cysylltiad â newid hinsawdd, gallem fod yn garbon niwtral. Dim ond gwlad fach ydym ond gallwn ysbrydoli cenhedloedd a gwledydd, e.e. codi tâl am fagiau plastig”.

Awgrymodd y cyfranogwyr mai'r rhwystrau i sicrhau Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang fyddai agwedd a diffyg pŵer deddfwriaethol.

Cytunodd y cyfranogwyr fod angen newidiadau mawr mewn agweddau tuag at wastraff, byw'n gynaliadwy ac ynni adnewyddadwy os yw Cymru am ddod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang.

“Mae pobl yn cwyno am ffermydd gwynt. Dylent fod ym mhobman yng Nghymru, drwy ddefnyddio ein harfordir a'n cefn gwlad”.

Yn olaf, ystyriwyd bod diffyg pŵer deddfwriaethol i wneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchu ynni dŵr ac adnewyddadwy, er enghraifft, yn rhwystr i Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

“Mae cymryd polisi hinsawdd i’n dwylo ein hunain yn rhoi mwy o reolaeth i ni, ond nid oes gennym ddigon o bwerau, nid ydym yn annibynnol”.